

Cyngor Cymuned Llanystumdwy

Cofnodion cyfarfod y Cyngor a gynhaliwyd ar nos Iau, Rhagfyr 4ydd, 2014 yn Ystafell Myrddin, Neuadd Goffa Chwilog.

Yn bresennol: Y Cynghorwyr John Williams, (Cadeirydd); Ifor Wyn Davies, (Is gadeirydd); Aled Lloyd Evans; Trefor Wyn Jones; William Ifor Hughes; Thomas Prys Jones; Dafydd Williams; Brian W Ifans; Marian Evans; Gwilym M Thomas a'r Clerc.

1. Ymweliad Ms Gwenan Ellis Jones, Cyd lynydd prosiect Siarter Iaith Cyngor Gwynedd. Roedd Ms Jones wedi anfon ymddiheuriad ei bod yn methu dod i'r cyfarfod achos ei bod, ar fyr rybudd, wedi gorfod mynd i Gaerdydd ar gais Carwyn Jones, Prif Weinidog Cymru. Roedd wedi cynnig gwneud ei chyflwyniad yng nghyfarfod mis Ionawr y Cyngor. Gofynnwyd i hynny gael ei drefnu.
2. Ymddiheuriadau: Y Cynghorwyr Margaret Griffith, Elis Gwyn Jones; Alwen Evans a Naomi Jones.
3. Cyflwynwyd a chadarnhawyd cofnodion cyfarfod Tachwedd 6ed, 2014 o'r Cyngor; bydd cofnodion pwyllgor Cyflog ac Amodau Gwaith y Clerc a'r Swyddog Ariannol Cyfrifol yn cael ei gadarnhau yng nghyfarfod nesaf y pwyllgor hwnnw.
4. Materion yn codi o'r cofnodion. Ar y rhaglen. Yn ychwanegol, rhif 12a, mynegodd y Clerc bod yr arwydd wedi'i osod dros y ffordd i Aelybryn, Llanystumdwy.
5. Datgan buddiant personol. Y Cynghorydd William Ifor Hughes yn datgan buddiant yn rhif 7 Cyngor Gwynedd cais cynllunio rhif 4; tocio coed yng Nghae Ffynnon, Pencaenewydd oherwydd ei fod yn gymydog i'r ymgeisydd.
6. Cyngor Gwynedd.

1. Priffyrdd a Bwrdeistrefol; Gwasanaeth Rheoli Gwastraff a Strydoedd, Lôn y Plas, Chwilog. Mae Cyngor Gwynedd yn cydnabod bod mwy nag un eiddo yn defnyddio'r pwynt casglu yma ac mae hyn wedi ei amlygu gyda'r Uned Gwaith. Penderfynwyd derbyn.
2. Priffyrdd a Bwrdeistrefol; Gwasanaeth Cynnal Priffyrdd a Bwrdeistrefol, Gwaith ail wynebu Tro Gwiga, Rhoslan. Mae'r gwaith wedi'i raglennu i ddechrau ar Ragfyr 4ydd, 2014 a bydd yn cymeryd hyd at bythefnos i'w gwblhau. Derbyniwyd.
3. Priffyrdd a Bwrdeistrefol; Gwasanaeth Cynnal Priffyrdd a Bwrdeistrefol, Materion y Gymuned. Derbyniwyd yr ymatebion canlynol gan y Cyngor Sir; am drefnu i'r ddwy gwter ger Capel y Beirdd gael eu glanhau a chynnal archwiliad i weld os yw'r gwterydd yn gweithio yn iawn; llwyni o dir preifat sy'n gordyfu dros y llwybr troed tu allan i Sŵn yr Afon, Llanystumdwy, bydd Swyddog Gorfodaeth Ffyrdd yr Ardal yn cael ei hysbysu; nid yw'r ffordd ei hun yn rhoi rhwng Ysgubor Hen a Thalar Deg, Chwilog ond mae arwyddion bod llithriad yn effeithio ar y clawdd, mae'r Adran Priffyrdd am hysbysu Adran Trafnidiaeth a Gofal Stryd a'u hatgoffa o bryderon Peiriannydd Ardal Dwyfor. Gofynnwyd i'r wybodaeth am y ffordd rhwng Ysgubor Hen a Thalar Deg gael ei anfon ymlaen at Mr a Mrs Williams, Ysgubor Hen ac at y Cynghorydd Anwen Jones.
4. Priffyrdd a Bwrdeistrefol; Gwasanaeth Cynnal Priffyrdd a Bwrdeistrefol, Rhaglen Waith Trafnidiaeth a Priffyrdd mis Rhagfyr 2014. Penderfynwyd derbyn y wybodaeth ynghylch y gwaith ail wynebu ar Dro Gwiga, Rhoslan, gweler rhif 2 uchod.

7. Cyngor Gwynedd – Trafodwyd a chefnogwyd y Ceisiadau Cynllunio canlynol yn y Gymuned

1. Cais rhif: C14/0866/41/R3 – Creu safle parcio ar gyfer 10 car; Tir ger Bro Sion Wyn, Chwilog.
 2. Cais rhif: C14/1078/41/TC – Defnyddio anecs nain ganiatwyd dan gais C03D/080/41/LL fel tŷ annedd annibynol ers mwy na 10 mlynedd; Gell Farm, Cricieth.
 3. Cais rhif: C14/1066/41/LL – Dymchwel modurdy presennol a chreu mynedfa gerbydol yn ei le a chodi modurdy gerbydol newydd ar safle gwahanol ynghyd a gosod tanc septic a chau mynedfa bresennol i greu mynedfa droed; Plas y Bryn, Chwilog.
 4. Cais rhif: C14/1077/41/CC – Tocio 20% oddi ar frigau 2 goeden llwyfen; Cae Ffynnon, Pencaenewydd.
 5. Cais rhif: C14/1123/41/LL – Amrywiad i osodiad er mwyn ail leoli 5 carafan ganiatawyd ynghyd a ymestyn ffin gogledd orllewinol y safle; Ocean Heights Caravan Park, Chwilog.
8. Arolwg blynyddol offer Cae Chwarae Llangybi. Adroddwyd bod y gwaith o lanhau'r matiau a llenwi tyllau wedi'i wneud. Cysylltwyd gyda chwmni G L Jones, Playgrounds Cyf., Bethesda ynghylch cael cap ar y bowlten ar y siglen fach a'r ateb gafwyd oedd bod angen i'r cwmni ei harchebu. Penderfynwyd gofyn i'r cwmni archebu cap.
9. Gohebiaeth oddi wrth Cyfeillion Llŷn am Bolisi Iaith y Cyngor. Derbyniwyd er gwybodaeth
10. Gwahoddiad i'r Cadeirydd gael ei ystyried am gael mynd i Balas Buckingham. Penderfynwyd gadael y gwahoddiad ar y bwrdd.

11. Materion yn y gymuned.

Rhoslan a'r Ynys

Llanystumdwy

Chwilog

Erydiad rhwng Afonwen a Glanllynau yn effeithio ar y rheilffordd. Penderfynwyd cysylltu gyda Network Rail i dynnu eu sylw at hyn ac i gysylltu gydag Arriva Cymru a Chyngor Gwynedd er gwybodaeth.

Llangybi

12. Materion heb gael ymateb iddynt.

- a. Polion ffôn Llangybi a'r cyffiniau yn dal heb gael sylw. Penderfynwyd anfon eto at Gyngor Gwynedd ynghylch hyn.
- b. Heb glywed oddi wrth Mr Arfon Hughes, Hwylusydd Tai Gwledig Gwynedd ynghylch dadansoddiad llawn o ganlyniadau'r holiaduron anghenion tai yn ardal Chwilog a Llanystumdwy. Penderfynwyd cysylltu gyda Mr Hughes.
- c. Y gwter gyferbyn â thŷ Hafan ym mhentref Chwilog ddim yn cymeryd y dŵr pan mae'n glawio. Penderfynwyd anfon eto at Gyngor Gwynedd ynghylch hyn.

Y Cyngor yn gaeedig i'r Cyhoedd ac i'r Wasg.

13.

14.

15. Ar ddiwedd y cyfarfod rhoddodd y Cynghorydd Aled Lloyd Evans adroddiad ar ddau gwrs drefnwyd gan Un Llais Cymru y bu arnynt yn ddiweddar lle roedd yn cael ei bwysleisio'r angen i Gyngorau osod cyllideb/cynllun busnes.

Ar ddiwedd cyfarfod y Cyngor bu cyfarfod o'r Cynghorwyr Ward Llanystumdwy oedd yn bresennol, sef y Cynghorwyr Marian Evans a Brian W Ifans a'r Clerc i drafod ceisiadau am gyfraniad o Elusen William Ellis.

It is possible to get a translation of any minute; contact the Clerk.

.

.